

# Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol

Gorffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: **[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfliau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)**  
Twitter: **@SeneddCyllid**

© **Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol

Gorffennaf 2020



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**

Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**

Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**

Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**

Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**

Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**

Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AS**

Plaid Brexit

---

## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion .....</b>	<b>7</b>
1. <b>Cefndir yr ymchwiliad.....</b>	<b>9</b>
2. <b>Adolygiad o'r llenyddiaeth.....</b>	<b>11</b>
3. <b>Data penodol i Gymru .....</b>	<b>20</b>
4. <b>Ymatebion ymddygiadol .....</b>	<b>25</b>
5. <b>Dulliau o liniaru treth incwm bersonol .....</b>	<b>38</b>
6. <b>Sgil-effeithiau.....</b>	<b>43</b>
<b>Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .....</b>	<b>46</b>
<b>Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>47</b>



## Rhagair y Cadeirydd

Wrth i Gymru agosáu at ddiwedd y drydedd flwyddyn ers datganoli'r dreth incwm yn rhannol fis Ebrill 2021, a blwyddyn olaf ymrwymiad y Llywodraeth bresennol yng Nghymru i beidio â chodi cyfraddau treth incwm Cymru, roeddym yn teimlo ei bod yn amser priodol i archwilio effaith posibl gwahanol gyfraddau treth incwm ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r ffin hon yn hynod boblog - gyda 17 miliwn o bobl yn byw o fewn 50 milltir iddi.

Er bod gwneud cymariaethau uniongyrchol â systemau treth cenedlaethol ac is-genedlaethol eraill yn gallu bod yn gyfyngedig o ran y canlyniadau, credwn fod tystiolaeth ryngwladol yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar yr ymatebion posibl gan drethdalwyr o ran eu hymddygiad.

Er enghraifft, dengys astudiaethau rhyngwladol fod pobl ar incwm uchel yn enwedig o ymatebol i gyfraddau treth; ei bod hi'n haws symud mewn rhai proffesiynau incwm uchel nag eraill; a bod lle y mae unigolyn wedi cyrraedd yn ei yrfa yn gallu dylanwadu ar ei allu i adleoli. Mae angen i Gymru ddenu a chadw'r grwpiau dylanwadol hyn.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod nad ystyriaethau o ran treth yw'r unig ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo. Ni ddylid anwybyddu effaith ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â threth—fel cyflogau, teulu, prisiau tai a safon bywyd—ac mae'n rhaid i'r ffactorau hyn fod yn rhan o waith ymchwil yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ar effaith gwahaniaethau o ran treth ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

I ddeall y sylfaen drethu yng Nghymru yn llawn, ac i hyrwyddo gwaith datblygu a gwaith ymchwil ar ymatebion trethdalwyr i wahaniaethau o ran treth, mae'n glir fod angen datgloi data sy'n benodol i Gymru, fel data ar wahanol fandiau incwm aelwydydd.

Gyda 44 y cant o boblogaeth Cymru yn talu treth incwm (o gymharu â 47 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig), mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru drafod ffyrdd o ddatblygu sylfaen drethu Cymru, o ran y dreth incwm, a sicrhau'r refeniw mwyaf posibl o ran treth.

O gofio hynny, rydym hefyd yn galw am waith ymchwil i ystyried ymateb trethdalwyr i liniaru treth incwm bersonol—er enghraifft, unigolion hunangyflogedig sy'n ymgorffori eu busnes i fanteisio ar gyfradd is o dreth gorfforaethol y DU ar eu helw, yn hytrach na thalu cyfraddau treth incwm Cymru ar eu henillion.

Er y daeth y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben cyn i ni sylweddoli gwir faint y pandemig COVID-19, mae'n glir y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch trethu i helpu i adfer yr economi. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddechrau trafod polisiau treth a chynlluniau wrth gefn i sicrhau bod yr holl arfau cyllidol ar gael i hwyluso taith Cymru allan o'r pandemig byd-eang hwn.

Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell mwy o gydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM i wella gwaith casglu a lledaenu data Cymru, ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gellir defnyddio adran Gwybodaeth, Dadansoddi a Deallusrwydd CThEM i gefnogi ymchwil ar ymwahaniad trethi..... Tudalen 24
- Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i'w helpu i sicrhau'r data angenrheidiol at ddibenion modelu, ac ymgysylltu ag academyddion i gynnal astudiaeth hydredol ar effaith ymwahaniad mewn cyfraddau treth ar draws ffin Cymru-Lloegr..... Tudalen 24
- Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell t dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar hyfywedd cynnal arolygon i wella data sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys y costau a'r amserlenni dan sylw. .... Tudalen 24
- Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwys o CThEM i wella dulliau adnabod trethdalwyr a monitro cyfradd gwallau codio treth yn fanwl er mwyn sicrhau bod mudo ar draws y ffin yn cael ei ganfod yn brydlon a bod refeniw treth cywir yn cael ei ddychwelyd..... Tudalen 24
- Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisiau newydd, ac adolygu'r polisiau presennol, ystyried a fydd ei pholisiau yn tyfu'r economi ac yn sicrhau'r refeniw treth mwyaf posibl. .... Tudalen 36
- Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu opsiynau polisi i ddenu'r grwpiau mwyaf ymatebol i Gymru, fel enillwyr incwm uchel a graddedigion ifanc, i hybu refeniw treth. .... Tudalen 36
- Argymhelliad 7.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch pa mor ddylanwadol yw ffactorau heblaw treth ar ymateb ymddygiadol trethdalwyr ac mae'n argymhell bod rhaid ystyried ffactorau o'r fath fel rhan o unrhyw ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n ymwneud ag effaith amrywiadau treth incwm ar draws ffin Cymru-Lloegr..... Tudalen 36
- Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y mecanwaith y mae CTIC yn gweithredu trwyddo a sut mae'n hybu gogwydd tuag at gynyddu cyfraddau treth incwm. .... Tudalen 36

<b>Argymhelliad 9.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau polisi ar gyfer defnyddio ei phwerau CTIC i ddelio ag amodau economaidd andwyol a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus.....	Tudalen 37
<b>Argymhelliad 10.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effaith lliniaru treth incwm bersonol trwy gorffori a newid ffurfliau incwm.....	Tudalen 42
<b>Argymhelliad 11.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i geisio datganoli incwm cynillion ac incwm difidend i Gymru ac asesu buddion a risgau sicrhau'r pŵer hwn.....	Tudalen 42
<b>Argymhelliad 12.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ymchwil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried sgil-effeithiau posibl y polisiau ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru ar bobl ddifreintiedig, megis enillwyr incwm isel ac unigolion sy'n talu treth incwm wrth dderbyn Credyd Cynhwysol.....	Tudalen 45

## 1. Cefndir yr ymchwiliad

1. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am rai o'r trethi sy'n cael eu talu yng Nghymru, gan gynnwys cyfrifoldeb dros bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) sy'n gymwys i incwm heblaw cynillion a difidendau trethdalwyr Cymru (cyflogau, elw o hunangyflogaeth, elw o renti, incwm pensiwn a buddion trethadwy). Os oes gan drethdalwyr Cymru incwm cynillion trethadwy, megis llog banc, neu incwm difidend trethadwy, mae hyn yn dal yn dod o dan brif gyfraddau treth incwm y Deyrnas Unedig ar gyfer y mathau hyn o incwm.
2. Ym mis Ebrill 2019, gostyngodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y tair cyfradd treth ar incwm heblaw cynillion a difidendau sy'n cael eu talu gan drethdalwyr Cymru 10 y cant:
  - y gyfradd sylfaenol o 20 y cant i 10 y cant;
  - y gyfradd uwch o 40 y cant i 30 y cant;
  - y gyfradd ychwanegol o 45 y cant i 35 y cant.
3. Wedyn penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai CTIC gael eu hychwanegu at gyfraddau gostyngedig y Deyrnas Unedig. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfraddau Cymru ar yr un lefel â'r cyfraddau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
4. Yng ngoleuni'r pwerau trethu newydd hyn a chrynodiad y bobl sy'n byw yn agos i'r ffin, penderfynodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) gynnal ymchwiliad i effeithiau posibl cyfraddau treth incwm gwahanol ar draws ffin Cymru â Lloegr.
5. Mae llawer yn teithio rhwng Cymru a Lloegr am fod y ffin rhwng y ddwy wlad yn hir ac yn hawdd ei chroesi. Nododd Llywodraeth Cymru fod bron 7 miliwn o bobl yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin a bod dros 17 miliwn o bobl yn byw o fewn 50 milltir i'r ffin.<sup>1</sup>
6. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif bod 98,500 o bobl yn cymudo bob dydd o Gymru i Loegr a bod 42,700 yn cymudo o Loegr i Gymru yn 2019.<sup>2</sup>
7. Mae yna botensial i nifer y cymudwyr gynyddu, yn enwedig o amgylch y De-ddwyrain, ar ôl i'r tollau gael eu dileu ar Bont Hafren a Phont Tywysog Cymru ym mis Rhagfyr 2018.

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 04: Llywodraeth Cymru

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Patrymau cymudo yng Nghymru yn ôl mesur a blwyddyn

**8.** Mae dystiolaeth Llywodraeth Cymru'n dangos bod y sefyllfa'n wahanol iawn yn yr Alban. Yno, dim ond 6 y cant (tua 3.7 miliwn) o boblogaeth gyfun yr Alban a Lloegr sy'n byw o fewn 50 milltir i ffin yr Alban a Lloegr.<sup>3</sup>

**9.** Dyma gylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor:

- archwilio effeithiau amrywiadau treth incwm is-genedlaethol mewn systemau treth rhyngwladol ar ymddygiad enillwyr incwm isel, canolig ac uchel, yn enwedig ymfudo ac osgoi treth.
- deall sut y gall enillwyr incwm isel, canolig ac uchel ymateb i amrywiadau mewn cyfradd treth incwm ar gyfer pob band treth rhwng Cymru a Lloegr.
- deall lefel yr amrywiad mewn cyfraddau treth incwm a allai ysgogi newid ymddygiadol ymysg enillwyr isel, canolig ac uwch yng Nghymru a Lloegr.
- asesu effaith ariannol ar refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru gyda lefelau amrywiol o amrywiad cyfradd treth.

**10.** Rhwng 14 Hydref 2019 a 15 Ionawr 2020 cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus, a chafodd **sraith ymateb** oddi wrth ystod o sefydliadau ac academyddion. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2020.

**11.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith.

---

<sup>3</sup> [Dystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.04: Llywodraeth Cymru](#)

## 2. Adolygiad o'r llenyddiaeth

**12.** Er na allai ymatebolwydd trethdalwyr mewn awdurdodaethau eraill i newidiadau ac amrywiadau mewn trethi incwm cenedlaethol ac is-genedlaethol gael ei drosi'n syml i ffin Cymru-Lloegr, canfu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad y gallai Cymru ddysgu gwersi o astudiaethau rhyngwladol.

**13.** Nododd David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt yn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) fod canfyddiadau mewn astudiaethau rhyngwladol ar amrywiadau treth trawsffiniol yn gymysg, gan nodi:

“Some studies find relatively little effect of variations in sub-national taxes on behaviour and hence tax bases...[whilst] a number of other studies find larger responses – especially for subsets of the population.”<sup>4</sup>

**14.** O ran yr effaith y mae amrywiadau treth yn ei chael ar fudo, nododd David Phillips:

“...there is some evidence that migration is a bigger thing when there are smaller distances. So, where there are differences in tax rates between small areas, like Swiss cantons or Swedish municipalities, migration seems to be more of an issue there than it is across US states or across countries. So, I think that is a really important point with the densely populated Welsh border. I think something like 8 per cent of the Welsh tax base comes from people working in England. Those people, you might think, would be particularly mobile as well.”<sup>5</sup>

**15.** Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi gwneud ystod o waith ym maes trethiant ac wedi cyhoeddi erthygl ar 'Tax Competition between Sub-Central Governments'. Mae'r erthygl yn archwilio rhyngweithiad strategol polisiau treth rhwng llywodraethau is-ganolog sy'n ceisio denu a chadw'r sylfaen drethi symudol, a chanfu hyn:

- mae cystadleuaeth treth yn gyffredin ac yn digwydd yn y mwyaf o wledydd;
- trethi ar incwm cyfalaf sy'n fwyaf agored i symudedd yn y sylfaen drethi ac wedyn trethi incwm personol;

---

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 63

- mae ffactorau eraill hefyd yn effeithio ar gystadleuaeth treth a symudedd y sylfaen drethi fel prisiau tai, gwariant ar wasanaethau cyhoeddus etc;
- roedd cystadleuaeth treth yn tueddu i gydgyfeirio a chynyddu yn hytrach na gostwng;
- mae'r gallu i godi treth uchel yn gysylltiedig â chyfraddau treth isel.<sup>6</sup>

**16.** Soniodd y corff ymchwil ‘Dadansoddi Cyllid Cymru’ (WFA) fod rhywfaint o dystiolaeth y gall gwahaniaethau mewn cyfraddau treth mewn gwlad annog trethdalwyr i adleoli neu symud eu hincwm rhwng awdurdodaethau, ond ychwanegodd:

“However, migration responses are likely to be very context-specific, and Wales’ particular circumstances make it hard to draw conclusions from other countries and tax jurisdictions.”<sup>7</sup>

**17.** Nododd Llywodraeth Cymru ei bod “wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth ar effeithiau posibl ymfudo yn sgil cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru a Lloegr”, y cyhoeddwyd crynodeb ohono yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2018<sup>8,9</sup>.

**18.** Amlygodd Llywodraeth Cymru hefyd fod adolygiad o'r llenyddiaeth wedi canfod nad oes astudiaeth y gall ei chanlyniadau gael eu defnyddio'n rhwydd i amcangyfrif ymfudo o fewn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i newidiadau yn y cyfraddau treth incwm datganoledig. Nododd fod y “llenyddiaeth yn cadarnhau'n gyffredinol berthynas rhwng newidiadau i'r gyfradd dreth ac ymfudo” gyda maint yr effaith a ganfyddir yn gyffredinol yn fach.<sup>10</sup>

**19.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“It's really important that we take account of the best available evidence, and that's one of the reasons why we're trying to expand the base of evidence that we have, and also expand the expertise that we have in Wales... So, the information isn't there at the moment because, as I say, we're in early days but we're keen to learn from other places, although...things aren't easily applicable to Wales.”<sup>11</sup>

---

<sup>6</sup> OECD, Tax Competition between Sub-Central Governments

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 04: Llywodraeth Cymru

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 04: Llywodraeth Cymru

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 152

**20.** O ran dod i gasgliadau ar sail astudiaethau rhyngwladol, cytunodd y swyddog i Lywodraeth Cymru a oedd yng nghwmni'r Gweinidog mai ansicr iawn oedd yr effeithiau ar ymddygiad. Er hynny, cyfeiriodd y swyddog at ganfyddiadau cyffredinol o'r llenyddiaeth:

“...there are some general things: if tax goes up, then people are more likely to migrate out, and vice versa. So, I think that's the general finding, and I think that's not an unsurprising one. But these effects aren't very large, particularly for the general tax base. They're very hard to actually identify and actually find in the data. But they are larger at the top end of the income distribution. For the real top earners, then they are more likely to move, and I think this is something that really does come strong from the data.”<sup>12</sup>

## Ymchwil ynghylch ffin Cymru-Lloegr

### Dadansoddi Cyllid Cymru

---

**21.** Mae'r WFA yn brosiect ymchwil parhaus yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ac wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r WFA yn ymateb i ddigwyddiadau cyllidol ac yn cynhyrchu ymchwil ar bob agwedd ar wariant y Llywodraeth yng Nghymru.

**22.** Mae tystiolaeth y WFA i'r ymchwiliad yn tynnu ar ei adroddiad 'Y Sylfaen Drethu Gymreig' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.<sup>13</sup> Pe bai Llywodraeth Cymru yn newid cyfraddau treth incwm yng Nghymru, pwysleisiodd yr adroddiad ei bod yn debyg y ceid rhywfaint o ymateb ymddygiadol gan drethdalwyr Cymru. Er ei fod yn rhag-weld bod maint ac effaith y newid ymddygiad yn ansicr iawn, mae'r ymatebion ymddygiadol posibl yn cynnwys:

- mwy o ddefnydd ar gynllunio treth,
- osgoi neu efadu treth,
- unigolion yn chwilio am swyddi gwahanol neu'n newid nifer yr oriau a weithir, a/neu
- ymfudo i Gymru ac allan ohoni.<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraph 157

<sup>13</sup> Y Sylfaen Drethu Gymreig, Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol Gorffennaf 2018

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru

**23.** Nododd y WFA mai un ffactor amlwg fyddai'r llif ymfudo sydd eisoes yn fawr ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan nodi'r posibilrwydd y gallai gwahaniaethau treth incwm ddylanwadu ar benderfyniadau'r rhai sydd eisoes yn cynllunio ar gyfer symud:

"With several large English cities within commutable distances of the Welsh border, individuals who do not have to change jobs after moving may have a greater incentive to migrate to Wales to take advantage of lower tax rates. There are also a significant number of second homes in Wales and England which are owned by residents of the other country. Changing their primary residence to these addresses may allow some taxpayers to take advantage of lower income tax rates, without incurring the costs of relocation."<sup>15</sup>

Yr Athro James Foreman-Peck a'r Dr Peng Zhou, Prifysgol Caerdydd

---

**24.** Cyhoeddodd yr Athro James Foreman-Peck a'r Dr Peng Zhou erthygl 'A Welsh tax haven?' ym mis Chwefror 2017, gan ddadansoddi maint y symudedd posibl a achosir gan dreth trwy edrych ar fudo rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Defnyddiwyd model wedi'i seilio ar economi Cymru i ganfod effaith cyfraddau treth gyngor sy'n gallu amrywio'n sylwedol rhwng parau o awdurdodau lleol.<sup>16</sup>

**25.** Canfu'r ymchwil y canlynol:

- na châi newidiadau yng Nghyfradd Sylfaenol treth incwm fawr o effaith ar fudo a chynhyrchion treth, oherwydd y diffyg cymhelliant i adleoli,
- y byddai newidiadau yn y cyfraddau treth incwm Ychwanegol ac Uwch yn cael effeithiau sylwedol,
- bod effeithiau ymfudo ac effeithiau refeniw yn dod yn gryfach dros gyfnod hirach, gyda gostyngiad yn y Gyfradd Ychwanegol o 45 y cant i 40 y cant yn cynyddu refeniw treth Cymru ar gyfradd flynyddol o £55 miliwn ar ôl deng mlynedd,
- mai gwahaniaeth yn y Gyfradd Uwch rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig a gâi'r effaith fwyaf ar refeniw treth Cymru am fod hynny'n effeithio ar y grwpiau incwm canolig ac incwm uchel,

---

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.07: Dadansoddi Cyllid Cymru

<sup>16</sup> A Welsh tax haven? Chwefror 2017

- y byddai toriad treth yn lleihau gwariant y llywodraeth ac yn effeithio ar lesiant cartrefi, ond awgrymwyd bod hyn yn cael ei wrthbwys o'n rhannol neu'n fwy gan fwy o wariant ar nwyddau a gwasanaethau preifat, ac
- mai effaith net newidiadau yng nghyfansoddiad y gweithlu trwy fudo a achosir gan dreth yw bod toriadau treth bob amser yn cynyddu allbwn y pen ond nad ydynt bob amser yn cynyddu cyfanswm y cynnyrch treth.<sup>17</sup>

**26.** Yn ddiweddarach cyhoeddodd y ddau bapur ‘Devolving fiscal policy: migration and tax yields’ yn 2019. Datblygodd y papur ddull anuniongyrchol o ganfod effeithiau posibl newidiadau treth datganoledig ar refeniw trwy ganiatáu ar gyfer ymfudo a achosir gan dreth.<sup>18</sup>

**27.** Awgrymodd y canlyniadau y gallai datganoli treth cyfyngedig, fel yr hyn a roddwyd i Gymru gan Ddeddf Cymru 2014, ysgogi cryn dipyn o sgil-efeithiau ar refeniw treth a gwerth ychwanegol gros (GVA) ar yr economi datganoledig yn sgil ymfudo.

Y Dr Long Zhou, yr Athro Kent Matthews a'r Athro Max Munday, Ysgol Fusnes Caerdydd

---

**28.** Nododd dystiolaeth Ysgol Fusnes Caerdydd fod Llywodraeth Cymru wedi noddi rhaglen ymchwil yn 2014 i ddatblygu modelau economaidd mwy cymhleth o economi Cymru er mwyn deall effeithiau posibl newidiadau mewn trethiant ar lefel ranbarthol. Amlinelloedd y dystiolaeth y dull o adeiladu'r modelau a rhoddodd enghraifft o allbynna'u'r model ar gyfer senario benodol (toriad treth o 5c ar draws pob band).<sup>19</sup>

**29.** Fel rhan o'r ymchwil, datblygodd Ysgol Fusnes Caerdydd fodel Ecwilibriwm Cyffredinol Cyfrifadwy (CGE) sy'n cyfleo'r rhyng-ddibyniaethau rhwng sectorau a marchnadoedd, gan ganiatáu dadansoddiad o sut y bydd newid polisi neu sioc polisi a dargedir mewn un rhan o'r economi yn effeithio ar weddill yr economi. Nododd y dystiolaeth mai mantais allweddol y model hwn yw ei allu i efelychu effeithiau polisiau a digwyddiadau, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ar y lefel ranbarthol. Mae'r model yn ystyried effaith codiadau a thoriadau treth incwm ar y sector preifat a'r sector cyhoeddus.<sup>20</sup>

**30.** I ddangos sut mae'r model yn gweithio, roedd dystiolaeth Ysgol Fusnes Caerdydd yn cynnwys efelychiad o doriad o 5c yn y bunt o refeniw treth incwm.

---

<sup>17</sup> A Welsh tax haven?. Chwefror 2017

<sup>18</sup> Devolving fiscal policy: migration and tax yields. Mai 2019

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.O1: Ysgol Fusnes Caerdydd

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.O1: Ysgol Fusnes Caerdydd

Mae Tabl 1 yn dangos sut y byddai'r toriad treth hwn yn effeithio ar Lywodraeth Cymru ac economi Cymru:

Tabl 1. Effeithiau toriad o 5c mewn treth incwm (newid canrannol mewn refeniw)

Newidynnau mawr: Treth incwm (-5 y cant)	Rhediad byr	Rhedeg canolig	Rhediad hir
Refeniw'r Llywodraeth ddatganoledig	-3.90	-3.87	-3.79
Refeniw treth incwm	-5.07	-5.05	-4.94
Gwariant Llywodraeth Cymru	-1.24	-1.23	-1.20
Gwerth ychwanegol gros (GVA)	-0.09	0.03	0.13
Defnydd aelwydydd	0.47	0.49	0.61
Ffuriant cyfalaf sefydlog gros	0.56	0.89	0.95
Cyfanswm incwm ffactor llafur	0.37	0.33	0.35
Cyflogaeth	0.00	0.00	0.35

Ffynhonnell: [Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 01: Ysgol Fusnes Caerdydd](#)

**31.** Mae'r dystiolaeth yn nodi:


- mae'r gostyngiad o 5c mewn treth incwm yn achosi i refeniw'r Llywodraeth ddatganoledig oswng oddeutu 4 y cant yn y tymor byr, canolig a hir, yn bennaf oherwydd ad-daliad gwan y refeniw treth incwm a gesglir yng Nghymru.
- i ddechrau mae'r refeniw treth incwm yn gostwng ychydig yn fwy na graddfa'r toriad treth o 5c ond mae'n ymadfer ychydig yn y tymor hir gan oswng 4.94 y cant. Mae graddfa fach yr adenillion yn awgrymu nad yw'r toriad treth yn rhoi hwb digonol i'r sector preifat i wneud iawn am effaith grebachol y toriad mewn gwariant cyhoeddus.
- mae gwariant Llywodraeth Cymru yn gostwng 1.24 y cant yn y tymor byr ac 1.20 y cant yn y tymor hir. Mae graddfa toriad gwariant y llywodraeth yn llai na refeniw treth y llywodraeth ddatganoledig oherwydd bodolaeth trosglwyddiadau cyllid o'r llywodraeth ganolog.
- yn gyffredinol, ymatebion cadarnhaol gwan i'r newid treth a geir yn y newidynnau macroeconomaidd mawr, gan gynnwys GVA a defnydd aelwydydd. Mae cwmpy cychwynnol GVA yn deillio o'r effaith grebachol yn sgil y toriad yng ngwariant y llywodraeth. Er hynny, yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae'r ysgogiad i'r sector preifat yn dechrau dod i'r amlwg ac yn talu am effeithiau negyddol y toriad mewn gwariant.

- mae'r cynnydd mewn incwm llafur yn y tymor hir wedi'i gysylltu'n llawn â'r cynnydd mewn cyflogaeth a allai ddod o lafur anweithredol yng Nghymru neu o fudo o'r tu allan i Gymru. Os tybir bod cyfanswm yr hyn sy'n gyfwerth ag amser llawn yng Nghymru oddeutu 1.2 miliwn o bobl, yna gallai'r toriad treth fod yn gysylltiedig â rhyw 4,000 yn fwy o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y tymor hir.<sup>21</sup>

## Cyfraddau Treth Incwm yr Alban

**32.** Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd yr IFS bapur arsylwi<sup>22</sup> ar sut roedd Cyfraddau Treth Incwm yr Alban (SRIT) yn gwyo oddi wrth weddill y Deyrnas Unedig, i godi mwy gan enillwyr incwm uchel.<sup>23</sup>

Ffigur 1. Rhestr o'r cyfraddau treth ymylol ar incwm a enillir, yr Alban a gweddill y Deyrnas Unedig, 2018-19



Ffynhonnell: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Scottish income tax diverges further from rest of UK to raise more from high earners. Ebrill 2018

**33.** Nododd y papur:

"One risk would be that these individuals migrate south of the border into England. While genuine migration is costly, it may be easier for those with multiple properties to change their tax residence within the UK. The OBR [Y Swyddfa Cyfrifioldeb Cyllidebol] assumes no response

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 01: Ysgol Fusnes Caerdydd

<sup>22</sup> Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Scottish income tax diverges further from rest of UK to raise more from high earners. Ebrill 2018

<sup>23</sup> SRIT 2018-19: Cyfradd Gychwynnol: 19 y cant; Cyfradd Sylfaenol: 20 y cant; Cyfradd Ganolradd: 21 y cant; Cyfradd Uwch: 41 y cant; Cyfradd Uchaf: 46 y cant.

in terms of genuine migration, but estimates that changes in reported tax residence as a result of this year's changes will lead to revenue losses to the Scottish Government of around £20 million – almost 10% of the predicted yield.”<sup>24</sup>

**34.** Nododd yr IFS mai dim ond nifer fach o drethdalwyr cyfradd ychwanegol (llai nag 20) a fyddai'n gorfol newid eu preswylfa er mwyn creu effaith o'r maint hwn.<sup>25</sup>

**35.** O ran y gwensi y gallai Cymru eu dysgu o'r cyfraddau treth incwm gwahanol yn yr Alban, cytunodd cyfranwyr at yr ymchwiliad fod y ffin rhwng yr Alban a Lloegr yn sylfaenol wahanol i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

**36.** Nododd Llywodraeth Cymru:

“Hyd yn oed pan fydd data ar dreth incwm sy'n cwmpasu'r newidiadau diweddar yn yr Alban ar gael, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i ba mor berthnasol yw'r gwensi a ddysgwyd i Gymru. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn llawer hwy na'r ffin rhwng yr Alban a Lloegr ac mae ardal y gororau yn llawer mwy poblog... Felly, mae'n fwy tebygol y byddai ymfudo rhwng yr Alban a Lloegr yn golygu newid swydd a rhwydweithiau cymdeithasol o gymharu ag ymfudo rhwng Cymru a Lloegr.”<sup>26</sup>

**37.** Dywedodd David Phillips wrth y Pwyllgor ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith ymwahaniad cyfraddau treth yr Alban, gan ei bod yn cymryd amser i CThEM brosesu'r data.<sup>27</sup>

**38.** Dywedodd y Gweinidog: “it will probably be a year or two before useful data comes from Scotland in terms of being able to help us understand the issues” gan gydnabod “the evidence from Scotland will be one more interesting piece in the puzzle rather than a definitive guide to what we can understand might happen in Wales”.<sup>28</sup>

---

<sup>24</sup> Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Scottish income tax diverges further from rest of UK to raise more from high earners, Ebrill 2018

<sup>25</sup> Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Scottish income tax diverges further from rest of UK to raise more from high earners, Ebrill 2018

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.04: Llywodraeth Cymru

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 68

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraffau 169 a 283

**39.** Aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i egluro bod y ffiniau di-ffrithiant yn y Deyrnas Unedig yn golygu bod modelu economaidd yn anodd, a bod hynny'n dibynnu ar gynnal arolygon a all fod yn dipyn o faich ar fusnesau:

“Scotland have done it to some degree, but, by assumption, they've assumed that trade between Scotland and England is not massive. I don't think we can make that assumption in Wales; I think we have to assume almost the opposite.”<sup>29</sup>

**40.** Mewn cyferbyniad â system dreth ddatganoledig yr Alban, nododd y WFA:

“...the UK government will not be able to respond in kind to a decision to cut income tax by the Welsh Government. Because any UK government tax cut will also apply in Wales (to the reserved portion of income tax), any differential between income tax rate in Wales and the rUK [gweddill y Deyrnas Unedig] cannot close unless the Welsh Government so chooses.”<sup>30</sup>

## Barn y Pwyllgor

**41.** Er bod y corff sylweddol o lenyddiaeth sy'n archwilio ymatebolrwydd trethdalwyr i amrywiadau mewn treth incwm is-genedlaethol yn cynnig egwyddorion arweiniol defnyddiol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ceisio dod i gasgliadau a rhagfynegi ymatebion ymddygiadol yng Nghymru ar sail effeithiau amrywiol newidiadau treth mewn gwledydd ac awdurdodaethau treth eraill yn gallu bod yn anodd.

**42.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymchwil sy'n cael ei gwneud i ddatblygu modelau penodol o Gymru ac yn cydnabod natur barhaus y gwaith hwn. Mae perthynas Llywodraeth Cymru â'r rhaglenni ymchwil hyn yn hanfodol, nid yn unig wrth ariannu datblygiadau pellach yn yr ymchwil ond hefyd o ran casglu a lledaenu data i lywio'r gwaith hwn.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn y bydd data yn y dyfodol ar effaith yr ymwahaniad yng nghyfraddau treth incwm yr Alban yn darparu sylfaen dystiolaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnig rhagor o ddirnadaeth o ymatebolrwydd trethdalwyr, ond mae'n rhannu barn y cyfranwyr y dylid mynd ati'n ofalus i dynnu cymariaethau â'r Alban o gofio'r gwahaniaethau penodol yng nghyfansoddiad y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

---

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 175

<sup>30</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.07: Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

### 3. Data penodol i Gymru

**44.** Un thema allweddol trwy gydol yr ymchwiliad oedd y diffyg data penodol i Gymru sydd ar gael i helpu academyddion i fodelu effaith ymatebion ymddygiadol i wahaniaethau mewn cyfraddau treth incwm ar y dreth a gynhyrchir ac ar economi Cymru.

**45.** Wrth gael eu holi am y data mwyaf priodol yr oedd ei angen i lywio'r berthynas rhwng amrywiadau yn y gyfradd dreth ac ymatebion ymddygiadol yn well, pwysleisiodd y WFA:

"...this [sef diffyg eglurder ynglŷn ag effeithiau ymddygiad] is just going to need a lot of work over a period of years. It's not something, in terms of data collection, that we can do overnight. This is going to be something that HMRC particularly, as the tax collection authority, are going to have to monitor over some years."<sup>31</sup>

**46.** O ran cychwyn ar astudiaeth hydredol, amlygodd David Phillips yr angen am ymchwil ar effaith penderfyniadau polisi CTIC:

"Whether it's an ongoing research project, I'm not sure. I think one thing that HMRC would do in what's called KAI—the knowledge analysis and intelligence division—they do a lot of research on an ongoing basis, and I don't know whether they're doing that for the Welsh Government as well as doing it for the UK Government. If they're not, maybe that's what I'd investigate to find out, actually, are they doing this investigation specifically for the Welsh, and if not, why not?"<sup>32</sup>

**47.** Cytunodd y Gweinidog fod yna fylchau yn sylfaen dystiolaeth Cymru:

"...there's also lots of appetite, I think, for more data to gain a more complete understanding of how the Welsh economy works in terms of those cross-border business flows between Wales and England. Again, that's an area where there is a gap in evidence. Work is under way to understand how feasible it would be to get a greater understanding there. So, we're aware of these gaps in evidence and we're exploring ways to close them."<sup>33</sup>

---

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 146

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 40

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 171

- 48.** Wrth fynd i'r afael â'r awydd parhaus am fwy o ddata, dywedodd swyddog y Gweinidog:

"...there's already been a survey in the field to try and—a one-off survey to see how viable this is to do...So, you have to go out on surveys, and that can be quite onerous on businesses. Some businesses don't even know that [cross-border business flows between Wales and England]. And so, this has always been a major restriction for this type of economic modelling in Wales... Whether it's viable, what the cost of that is and the burden on business is stuff that we are actively exploring, and we're going to learn more, I think, in the next few months, hopefully. But that is something that the Welsh Government is very conscious of."<sup>34</sup>

## Modelu

- 49.** Esboniodd Ysgol Fusnes Caerdydd mai'r prif gyfyngiad wrth lunio eu model nhw oedd argaeledd data:

"...this model was conducted based on a single level of households, it does not consider the different income bands of the households. So, one of the reasons we chose to do this was because of the lack of data, because currently the Welsh data for the household—there is only one type of household and there is only one type of consumption pattern, in terms of different consumption groups."<sup>35</sup>

- 50.** O ran a oedd y data angenrheidiol ar gael i boblogi'r model, dywedodd yr Athro Kent Matthews ei fod yn credu bod y data'n bodoli, ond bod yna gwestiwn ynglŷn â chyfrinachedd wrth gyrchu data o'r fath.<sup>36</sup>

- 51.** Codwyd mater cyfrinachedd data hefyd gan swyddog y Gweinidog a esboniodd:

"There is a lot of data there, but, as I say, it's tax sensitive. The best data is the tax data, because what you're really interested in is those top payers, the high-end payers, the additional-rate payers. You only really identify those not from surveys necessarily, but from tax data.

So, yes, we are actively working with HMRC to improve the data, because it's not just important for us to have access to it, it's also

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraffau 173 a 175

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 37

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 134

important for researchers, like Kent Matthews himself, for them to do studies on, and for transparency in itself. So, that is something that we're trying to—. Even though there are long lags in the data, as the Minister says—we're many years off having the really good data for Wales—it's putting those steps in place so that, once it is available, it's then in an appropriate form and it can be shared appropriately.”<sup>37</sup>

- 52.** Pan ofynnwyd iddo sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau data i fireinio'r model, nododd yr Athro Kent Matthews:

“...I believe the trade survey is on its way and that will be of great value. At this moment, I’m thinking very much about what kind of information you have about income structure and tax paying and migration. These are the most important at the moment. Labour economists will be able to give you a much more definitive answer to this, in terms of micro studies, because you can’t—. Wales is never going to have the kind of data that we have in the United Kingdom to build an econometric model, but we can build bits of it and that will be very important, and labour studies are important. So, I do believe that the sort of information you’re getting in the general household survey on a regional basis would be interesting.”<sup>38</sup>

## Adnabod trethdalwyr

- 53.** Gan fyfrio ar brofiad yr Alban, dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban (ICAS) na ddylid cymryd yn ganiataol bod trethdalwyr Cymru wedi cael eu hadnabod yn gywir hyd at y cyfeiliornad lleiaf posibl, gan bleidio datblygu gwell data i helpu i ddadansoddi ymddygiad trethdalwyr:

“HMRC’s identification of Scottish and Welsh taxpayers is a basic example of an area where accurate and comprehensive information flow is essential to the Scottish and Welsh governments. Clearly, the information flow should be barrier free and mutually recognised as beneficial, to ensure that tax revenues on both sides can be optimised and any potential loopholes identified and resolved expeditiously.”<sup>39</sup>

- 54.** Mewn perthynas â gweinyddu trethdalwyr a chodio cyfeiriadau yn gywir, dywedodd y WFA wrth y Pwyllgor:

---

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraffau 287-288

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 128

<sup>39</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.03: Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban](#)

“This is going to be something that needs continual monitoring, because, as taxpayers move out from England to Wales, are they being picked up as soon as they move in? People particularly with no fixed address or with multiple addresses in the year: is HMRC mobile and flexible enough to pick up these small changes? It doesn’t really matter right now, because the block grant adjustment in the first year equalled the offset tax, but, as we go forward, and particularly if we’re looking at changes to tax rates, administration is going to be really, really key, I think, given the Welsh Government’s contract with HMRC over tax collection. I think that’s a role for both the Welsh Government and the Senedd to participate in.”<sup>40</sup>

**55.** Gan fynd i'r afael â pha mor effeithiol y mae trethdalwyr sy'n symud dros y ffin yn cael eu hadnabod, nododd y Gweinidog fod 97 y cant o drethdalwyr bellach yn defnyddio'r rhagddodiad cod C cywir ond cydnabu fod mwy o waith i'w wneud o hyd. Esboniodd y Gweinidog fod gan CThEM raglen addysgu a chydymffurfio barhaus ar waith a'u bod yn gweithio gyda chyflwynwyr i chwilio am welliannau.<sup>41</sup>

## Barn y Pwyllgor

**56.** Mae'r diffyg data penodol i Gymru yn her sy'n codi dro ar ôl tro yng nghydestun datganoli cyllid ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cyfyngiadau y mae hyn yn eu gosod o ran cefnogi ymchwil a mireinio modelau penodol i Gymru. Er ein bod yn cydnabod y sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â datgelu data treth ar strwythur incwm yn benodol, mae gwella gwaith i gasglu a lledaenu data Cymru yn hanfodol er mwyn deall cyfansoddiad sylfaen dreth Cymru.

**57.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg masnach untro i gasglu data sy'n benodol i Gymru ac mae o blaidd archwiliad pellach o ddichonoldeb y dull hwn i fynd i'r afael â'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth Gymreig a nodwyd gan y rhanddeiliaid.

**58.** Mae mater mudo ar draws ffiniau ac adnabod trethdalwyr yn cael ei drafod yn rheolaidd gyda'r Gweinidog, fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar gynnydd datganoli pwerau cyllid i Gymru a chyllidebau Llywodraeth Cymru. Er bod y Gweinidog wedi manylu ar y gwaith a wnaed gan CThEM i leihau gwallau codio, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o hyder ynghylch cyflawnrwydd a chywirdeb sylfaen dreth Cymru.

---

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 233

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraffau 274 a 276

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell mwy o gydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM i wella gwaith casglu a lledaenu data Cymru, ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gellir defnyddio adran Gwybodaeth, Dadansoddi a Deallusrwydd CThEM i gefnogi ymchwil ar ymwahaniad trethi.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i'w helpu i sicrhau'r data angenrheidiol at ddibenion modelu, ac ymgysylltu ag academyddion i gynnal astudiaeth hydredol ar effaith ymwahaniad mewn cyfraddau treth ar draws ffin Cymru-Lloegr.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell t dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddarriad ar hyfywedd cynnal arolygon i wella data sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys y costau a'r amserlenni dan sylw.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysio ar CThEM i wella dulliau adnabod trethdalwyr a monitro cyfradd gwällau codio treth yn fanwl er mwyn sicrhau bod mudo ar draws y ffin yn cael ei ganfod yn brydlon a bod refeniw treth cywir yn cael ei ddychwelyd.

## 4. Ymatebion ymddygiadol

### Y Sylfaen Drethu Gymreig

**59.** Mae'r tebygolrwydd o fod yn drethdalwr incwm yn is yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, yn ôl adroddiad yr OBR, Rhagolwg Trethi Cymreig. Nododd y Rhagolwg, yn ôl Arolwg Incwm Personol (SPI) 2016-17, fod 44 y cant o boblogaeth Cymru yn drethdalwyr incwm, o'i gymharu â 47 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig, gan ychwanegu:

"Y rheswm pwysicaf am y bwlch rhwng treth y DU a Chymru fesul person fel y'i cofnodwyd yn yr SPI yw bod gan drethdalwyr Cymru incymau cyfartalog is. Mae hyn yn egluro mwy na hanner y diffyg treth fesul person."<sup>42</sup>

**60.** Cyfeiriodd yr OBR hefyd at ddau ffactor arall sy'n debygol o gyfrannu at y gyfran is o drethdalwyr yng Nghymru:

- cyfraddau cyflogaeth is yng Nghymru; a
- chodiadau olynol yn y lwfans personol di-dreth gan dynnu cyfran fwy o drigolion Cymru allan o dreth incwm yn gyfan gwbl.<sup>43</sup>

**61.** Nododd adroddiad y WFA ar y Sylfaen Drethu Gymreig fod incwm cymedrig trethdalwyr heblaw cynillion a difidendau (NSND) yng Nghymru yn 2014-15 (£24,900) yn sylweddol is na'r un incwm yng ngweddill y Deyrnas Unedig (£29,900). Nododd yr adroddiad hefyd fod gwahaniaethau rhwng incwm trethdalwyr Cymru ac incwm trethdalwyr gweddill y Deyrnas Unedig yn arbennig o amlwg ym mhen uchaf y dosbarthiad incwm: roedd incwm yn y 99<sup>fed</sup> ganradd yn £94,600 yng Nghymru ond yn £153,400 yng ngweddill y Deyrnas Unedig.<sup>44</sup>


---

<sup>42</sup> Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Trethi Cymreig, Rhagfyr 2019, paragraffau 2.17 a 2.20

<sup>43</sup> Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Trethi Cymreig, Rhagfyr 2019, paragraffau 2.18-2.19

<sup>44</sup> Y Sylfaen Drethu Gymreig, Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol, Gorffennaf 2018, tudalen

Ffigur 2. Dosbarthiad incwm heblaw cynillion a difidendaau (NSND) trethdalwyr yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig 2014-15



Source: HMRC (2017) and authors' calculations

Ffynhonnell: Y Sylfaen Drethu Gymreig, Risglau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol, Gorfennaf 2018. (Ffigur 2.3).

## Proffiliau incwm

**62.** Cytunodd David Phillips â'r casgliadau a ffurfiwyd gan y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth ryngwladol, bod ymfudo ac ymatebion ymddygiadol eraill fel osgoi treth yn debygol o fod yn fwy yn achos unigolion incwm uchel.<sup>45</sup>

**63.** Gan ymhelaethu ar hyn, eglurodd:

"That looks like it's to do with the fact they have greater scope to make use of various tax planning and tax avoidance things—perfectly legally, I should add—also to migrate to other jurisdictions—it's easier to migrate if you're a millionaire than if you're someone on an ordinary salary—and also perhaps greater award of effort and performance. So, if you're a top executive, maybe you can really push the boat out a bit more. Your earnings will depend a bit more on your performance—although not always—than someone on a more regular salary. So, high income taxpayers tend to be more responsive."<sup>46</sup>

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 5

**64.** Nododd fod y dystiolaeth yn awgrymu bod ymatebolrwydd i ymhawaniad mewn trethi'n cael ei wanhau oherwydd costau sylweddol ymateb i newidiadau treth, yn enwedig yn y tymor byr. O ran ymatebion ymfudo, nododd hyn:

“...these costs include the physical cost of moving (e.g. costs of buying/selling houses), information costs (e.g. on where taxes are lower, on where and which jobs are available), and psychological costs (e.g. missing family and friends).”<sup>47</sup>

**65.** O ran osgoi treth, tynnodd David Phillips sylw hefyd at gost ceisio cyngor proffesiynol ac awgrymodd mai dim ond pan fyddai'r holl newidiadau/gwahaniaethau treth yn ddigon mawr y gallai fod yn werth gwneud yr ymdrech i ymateb.<sup>48</sup>

**66.** Nododd y WFA: “high income earners are assumed to be the most responsive to income tax rate changes because they have the largest incentive and the greatest means to change their behaviour in response to tax policy”.<sup>49</sup>

**67.** Er eu bod yn cydnabod bod Cymru yn llai dibynnol ar incwm yr enillwyr uchaf un, nododd y WFA y bydd eu hincwm nhw'n dylanwadu'n drwm ar gymeriant treth Cymru:

“The top one per cent of taxpayers in Wales will contribute over 10 per cent of devolved income tax revenue (more than the lowest-earning 40 per cent of taxpayers), and the top 10% will contribute more than the lowest-earning 70 per cent.”<sup>50</sup>

**68.** Canfu dystiolaeth y WFA, a gyflwynodd amcangyfrifon o'r lefelau ymfudo sy'n ofynnol er mwyn i effaith newid mewn treth ar refeniw gael ei gwrth-droi, mai mudo gan drethdalwyr y gyfradd ychwanegol sydd debycaf o effeithio'n sylweddol ar refeniw yn sgil newidiadau yng nghyfraddau treth Llywodraeth Cymru.<sup>51</sup>

**69.** Roedd gwaith modelu'r WFA, a awgrymodd y byddai dileu'r gyfradd ychwanegol yng Nghymru (trwy gyfrwng toriad o 5c) yn costio oddeutu £27 miliwn i Lywodraeth Cymru yn 2020-21 yn rhag-weld:

---

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

<sup>49</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru

<sup>50</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru

- y byddai cost y toriad treth yn gostwng i £17 miliwn, pe bai tua 407 o drethdalwyr cyfradd ychwanegol yn mudo i Gymru (0.1 y cant o'r trethdalwyr cyfradd ychwanegol yng ngweddill y Deyrnas Unedig);
- y byddai cost y toriad treth yn cael ei wrthbwys, pe bai 1,100 o drethdalwyr cyfradd ychwanegol cyfartalog yn mudo;
- y byddai cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu £129 miliwn, pe bai dros 6,000 o drethdalwyr cyfradd ychwanegol yn mudo.<sup>52</sup>

Tabl 2: Modelu toriad o 5c yn y gyfradd ychwanegol yng Nghymru: effeithiau refeniw ymatebion mudol amrywiol gan drethdalwyr cyfradd ychwanegol (AR) o weddill y Deyrnas Unedig (rUK)

<b>Cyfran o drethdalwyr AR rUK yn mudo i Gymru</b>	<b>Nifer y trethdalwyr AR yn mudo i Gymru</b>	<b>Nifer y trethdalwyr AR yng Nghymru</b>	<b>Cyfran Cymru o holl drethdalwyr AR y Deyrnas Unedig</b>	<b>Effaith yr ymateb mudol ar y gyllideb (£miliynau)</b>	<b>Newid yn y gyllideb ar ôl toriad treth (£miliynau)</b>
<b>0.0</b>	0	6,000	1.4%	0	-27
<b>0.1%</b>	407	6,407	1.5%	10	-17
<b>0.5%</b>	2,035	8,035	1.8%	52	25
<b>1.0%</b>	4,070	10,070	2.3%	104	77
<b>1.5%</b>	6,105	12,105	2.8%	156	129
<b>20.0%</b>	8,140	14,140	3.3%	208	181
<b>2.5%</b>	10,175	16,175	10.7%	260	233
<b>3.0%</b>	12,210	18,210	4.2%	312	285

Ffynhonnell: [Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru](#). (Ffigur 3)

**70.** Esboniodd y WFA y byddai toriad o 5c yn y gyfradd ychwanegol yn gyfystyr â thoriad treth o £10,500 bob blwyddyn, gan ychwanegu:

“If your intention is to increase the size of the Welsh budget by attracting higher earners you'd need around 6,000 additional rate taxpayers to move to Wales to raise £129 million for the Welsh budget. That would be a doubling of the amount of additional rate taxpayers in Wales...In considering the differences in housing costs and living costs already present across the border, that would represent a substantial migration response. How likely that is to recur—you could probably be

<sup>52</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

quite sceptical about that sort of response taking place after a tax cut.”<sup>53</sup>

**71.** Ar y llaw arall, pe bai'r gyfradd uwch yn cael ei chynyddu 5c (gan gostio £1,067 i'r trethdalwr cyfradd uwch cyfartalog yng Nghymru), dangosodd gwaith modelu'r WFA y byddai angen i fwy na 17,000 o drethdalwyr cyfradd uwch fudo er mwyn gwneud iawn am y £118 miliwn ychwanegol a gai ei godi.<sup>54</sup>

**72.** O ran ymatebolrwydd trethdalwyr incwm isel a chanolig, dywedodd David Phillips:

“I should say that the strong evidence is these people are a lot less responsive to changes in income tax, but because there are far, far more of them, a small change can turn into a bigger cash amount. So, I wouldn't say that you should ignore the effects. In pounds millions, it could be bigger, actually; it's just a much smaller percentage of the revenue you get from them.”<sup>55</sup>

**73.** Er hynny, nododd David Phillips y gall ymatebolrwydd fod yn uchel ar gyfer is-setiau penodol fel graddedigion ifanc, dyfeiswyr, mabolgampwyr proffesiynol, y rhai sy'n agosáu at ymddeol a dinasyddion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.<sup>56</sup> Gan ymhelaethu ar y grwpiau mwyaf ymatebol, eglurodd:

“...if you look at the evidence about who is most responsive, it could be people with childcare responsibilities, who seem to be a bit more responsive to differences in tax rates and benefit policy—so, mothers with young children. There's some evidence that when people move to retire that can be a factor there, and there's some evidence, although this is a bit unclear—some say it's fine, some don't—that young graduates can be a bit more mobile, because they haven't set up their families and their careers yet.

...I know the Welsh Government's been thinking more generally about what to do with young graduates who come to Wales to study, or leave Wales, and there's a bit of an in-flow of older people and an out-flow of young graduates. It could have an impact there, but probably relatively small.”<sup>57</sup>

---

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 202018, paragraffau 211-212

<sup>54</sup> **Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.07: Dadansoddi Cyllid Cymru**

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 42

<sup>56</sup> **Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid**

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraffau 43-44

**74.** Pwysleisiodd yr OECD yr angen i ystyried y cydadweithio rhwng y system dreth a'r system cyfraniadau nawdd cymdeithasol:

“...labour market activity is not just about tax, there are many other considerations, and these approaches should be considered in that broader policy context as well. But, we would certainly see that ensuring that particularly the interaction between any benefits that might be available through other spending channels and the tax system, we try to reduce any of the disincentives that you might be creating. That's an incredibly complicated set of assessments to make.”<sup>58</sup>

**75.** At hynny, rhybuddiodd yr OECD yn erbyn rhoi gormod o bwysau ar rai o'r bygythiadau symudedd:

“In the end, the environment in a post-partial devolution context is no different to what every jurisdiction faces, and tax rates impact the extent to which people work, the amount that they work, their willingness to work and getting the rates right to get the right responses is the first set of questions that you should be asking. We do think that it's obviously important to take behavioural responses into account, but we think there is a danger that you could over-emphasise the impact of those.”<sup>59</sup>

**76.** Cododd yr OECD hefyd heriau'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru a'r angen i ystyried effaith llai o bobl sy'n weithredol yn y farchnad lafur ar refeniw drwy dreth incwm personol.<sup>60</sup>

**77.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn derbyn bod enillwyr uwch yn fwy tueddol o newid ymddygiad mewn ymateb i dreth incwm yn benodol:

“In terms of influencing policy, there's a real tension, isn't there, in terms of seeking to encourage high earners to come and live in Wales, but, at the same time, maintaining our very progressive approach to policy and tax policy.”<sup>61</sup>

---

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraph 167

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraph 187

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraph 169

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraph 178

## FFactorau heblaw treth

**78.** Awgrymodd yr ymateb ar y cyd gan y Sefydliad Trethi Siartredig (CIOT) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel (LITRG) fod yna nifer o ffactorau heblaw treth a fyddai'n fwy dylanwadol ar ble mae unigolyn yn byw, yn hytrach nag amrywiadau bach mewn treth incwm, megis:

- Cost tai (prynu neu rentu)
- Argaeedd gwaith (a chysylltiadau teithio i'r gwaith)
- Costau byw
- Ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.<sup>62</sup>

**79.** Er hynny, fe nodon nhw y gallai newidiadau treth gael “an impact at the margin, especially for high earners, influencing longer term decisions about whether or not to move in the context of ‘a life event’ when say, a taxpayer changes jobs or downsizes”.<sup>63</sup>

**80.** Ategwyd y farn hon gan y WFA gan ddefnyddio dileu'r tollau ar ddwy bont Hafren fel enghraift, a nodi bod hynny wedi cael effaith sylwedol ar brisiau tai. Nododd y WFA fod yna dystiolaeth glir bod y ffactorau di-dreth hyn yn chwarae rhan fawr, gan ychwanegu:

“I suppose when we're looking at this, when we're trying to find clues in this about what big tax-rate changes might signify for migration, I suppose the question is: given that house prices and living costs are so much lower in Wales already, why haven't people moved already? On that basis, we'd expect that quite large tax-rate changes would be needed to trigger some sort of large response. Small changes at the margin—given that we already have these big differentials, these small rate changes are unlikely on their own to trigger a large migration response.”<sup>64</sup>

**81.** Pan ofynnwyd iddi a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried canlyniadau posibl denu mwy o drethdalwyr i Gymru, megis yr effaith ar brisiau tai a chostau rhentu, dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 05 Y Sefydliad Trethi Siartredig \(CIOT\) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel \(LITRG\)](#)

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 05 Y Sefydliad Trethi Siartredig \(CIOT\) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel \(LITRG\)](#)

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 185

“...there would have to be huge movement in order to have any real impact on house prices and rents in Wales. You can look at areas where Government policy has changed or had an impact on house prices. When you think about the removal of the Severn bridge tolls, people there, for example—. The cost to a commuter for using the Severn tolls was in excess of £1,000 a year but, in contrast, a 1p change to the basic rate in Wales for the median earner would result in a change of tax of just £100 a year. So, I think that the level of impact it would have on those individuals is very different.”<sup>65</sup>

## Hyd a lled newidiadau treth

**82.** Clywodd y Pwyllgor y byddai newidiadau treth yn y tymor byr a'r tymor hir yn cynhyrchu ymatebion ymddygiadol gwahanol. Dywedodd y CIOT a'r LITRG:

“...a short term divergence (provided the public knew it was short term) might not cause, for example, someone to incorporate a business or refuse a promotion. In our opinion, divergences would probably have to be significant and long-term to result in migration out of a state.”<sup>66</sup>

**83.** Pan ofynnwyd a fyddai amrywiadau byrdymor a hirdymor mewn cyfraddau treth yn hybu ymatebion ymddygiadol gwahanol gan drethdalwyr, cytunodd Ysgol Fusnes Caerdydd ei bod yn bosibl na fyddai amrywiadau treth yn gwneud llawer o wahaniaeth yn y tymor byr ond y bydden nhw'n disgwyl gweld ymateb ar ffurf ymfudo yn y tymor hir.<sup>67</sup>

**84.** Tynnodd David Phillips sylw hefyd at bwysigrwydd ystyried maint y newid treth, gan nodi y gallai graddfa'r ymateb i newid sylweddol yn y gyfradd dreth fod yn fwy nag ymateb i newid bach:

“For example, one might expect a 5 percentage point change in tax rates to lead to a more-than 5 times as large a response as a 1 percentage point change in tax rate. This is because adjustment costs can attenuate the responses to small changes or differences in tax policy. This means that the scope for learning how taxpayers may respond to a big tax change from how they responded to a small tax change may be limited.”<sup>68</sup>

---

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 221

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT.05.Y.Sefydlriad.Trethi.Siartredig.\(CIOT\).a'r.Grŵp.Diwygio.Treth.Incwm.Isel.\(LITRG\)](#)

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraffau 29-30

<sup>68</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT.06.Y.Sefydlriad.Astudiaethau.Cyllid](#)

**85.** Amcangyfrifodd y CIOT a'r LITRG y newidiadau yn y cyfraddau a fyddai'n ofynnol er mwyn dylanwadu ar ymddygiad trethdalwyr Cymru:

"Anecdotally, we think that a 5% to 10% long term variation in income tax rates may be needed to have any significant effect on people's choices of residence. But...we recommend further research in this area."<sup>69</sup>

**86.** Mynegodd yr Athro James Foreman-Peck y farn y byddai newid cymharol fach yn cael effaith sylweddol yn y pen draw:

"The point would have to be that it would have to be credible and sustained, precisely because we don't know how long it's going to take. So, it would involve people believing that this income tax change was going to persist for maybe 10 years or more, because of the time it takes for people to adjust their behaviour and to believe it's going to be worthwhile and won't be changed back to where it was before. So, I think the credibility of the change, or the credibility of the persistence of the change is probably the most important aspect of deciding on whether the effect is going to be significant or not."<sup>70</sup>

**87.** Daeth yr Athro James Foreman-Peck i'r casgliad:

"In the search for tax revenue, changing income tax rates seems perilous. Seeking a broader tax base or encouraging the growth of existing tax bases appear preferable."<sup>71</sup>

**88.** Gan ymhelaethu ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ehangu'r sylfaen drethu Gymreig, cyfeiriodd yr Athro James Foreman-Peck at y polisi i ddenu Admiral i Gymru:

"...Admiral is such a big company now, and it didn't exist before it came to Wales. And it seems to me if you could just do two or three more like that, you would be making a great deal of difference to the Welsh economy."<sup>72</sup>

**89.** Mewn ymateb i'r awgrym y byddai ceisio creu sylfaen drethu ehangach yn well na newid cyfraddau treth incwm, dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 05 Y Sefydliad Trethi Siartredig \(CIOT\) a'r Crŵp Diwygio Treth Incwm Isel \(LITRG\)](#)

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mawrth 2020, paragraff 53

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [James Foreman-Peck a Peng Zhou, Prifysgol Caerdydd](#)

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mawrth 2020, paragraff 77

“I think that it’s good that we have both tools. So, we have Welsh rates of income tax but we also have the opportunity to grow our tax base through the right investment and policies. Changing tax rates, of course, would give us more of an immediate impact, whereas growing the tax base is a much longer-term endeavour. The difference now I think is, really, that we’ve got more skin in the game in the sense that we’re exposed now to the growth and to increasing the take of tax in Wales, so that’s the difference, I think, now that we do have both of those levers.”<sup>73</sup>

## Polisi Llywodraeth Cymru

- 90.** Amlygodd David Phillips fod modd defnyddio'r systemau treth incwm a'r system treth eiddo, os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried trefn dreth fwy blaengar.<sup>74</sup> Adleisiwyd hyn gan yr OECD:

“I think looking at personal income tax in isolation may not be the optimal approach, and that really also thinking about the property tax design is really important.”<sup>75</sup>

- 91.** Tynnodd David Phillips sylw at y ffaith bod y ffordd y mae'r CTIC wedi'i sefydlu yn golygu bod codiadau mewn cyfraddau treth incwm yn gymharol fwy deniadol i Lywodraeth Cymru o safbwyt refeniw:

“...unless migration responses are very large indeed, the set-up of income tax devolution in Wales means that it is very highly likely that increases in tax rates, even the additional rate, would increase Welsh Government revenues. Conversely, reductions in tax rates would reduce revenues, unless behavioural responses were very large. This is because whilst the Welsh Government gains or loses the full ‘mechanical’ effect of the tax rate change, it only bears a portion of the behavioural effect.”<sup>76</sup>

- 92.** Dangoswyd hyn yn nhystiolaeth y WFA, a fodelodd yr effaith ar refeniw CTIC a gâi newid yn y cyfraddau treth ar gyfer pob band treth incwm. Dangosodd yr amcangyfrif hyn:

“...the Welsh Government would be relatively shielded from the behavioural response of Welsh taxpayers if it decided to change

---

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 219

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefor 2020, paragraff 71

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefor 2020, paragraff 188

<sup>76</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

income tax rates...the ‘mechanical’ effect of a tax rate change (with no behavioural change) are relatively close to the revenue effects that assume a behavioural response. For instance, a 1p increase at the basic rate would raise around £190 million in revenue in the absence of a behavioural response; these receipts would reduce only marginally to £186 million even under an assumption of large income elasticities.”<sup>77</sup>

**93.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beidio â chynyddu cyfraddau treth incwm yn ystod tymor 2016-21.<sup>78</sup> Wrth gael ei holi ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisiau treth incwm yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“So, I think we’re all in a similar place at the moment in the sense that the Welsh Government has said that it won’t raise income tax rates over the course of this Assembly. So, the kind of discussions and thought I’m giving to it now is where we take things for the next Assembly and what our manifesto commitments might look like. So, obviously, I wouldn’t want to go into too much detail. But I know that all parties will be using the work that this committee does in terms of considering the way forward. But I think that if we start from a base of fairness and progressivity—I think that that would be where we are.”<sup>79</sup>

## Barn y Pwyllgor

**94.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth geisio rhag-weld ymatebion trethdalwyr ar ffurf mudo ac osgoi ac ymatebion economaidd i newidiadau posibl yn y cyfraddau treth incwm yng Nghymru - er bod y rhain yn heriau sy'n wynebu pob awdurdodaeth. Yn y pen draw, yr unig ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ei sylfaen dystiolaeth ei hun yw cynnal astudiaeth ymchwil hydredol wrth gychwyn ar bolisiau treth incwm newydd.

**95.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod ehangu sylfaen drethu Cymru yn elfen bwysig wrth godi refeniw treth ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i ganolbwytio ar weithredu strategaethau arloesol i ddatblygu'r sylfaen dreth.

**96.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y llenyddiaeth yn awgrymu bod ymatebolwydd i ymwahaniadau mewn trethi yn cynyddu gydag incwm a hyblygrwydd unigolyn i

---

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT 07: Dadansoddi Cyllid Cymru. Ffigur 2

<sup>78</sup> Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019, paragraff 12

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 199

adleoli, ac mae'n credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio sut y gall ei pholisiau treth ddenu a chadw'r grwpiau dylanwadol hyn.

**97.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ymdrechion Llywodraeth Cymru i barhau'n gydradd â Lloegr mewn meysydd fel pensiynau'r GIG a chyflog athrawon i liniaru ymatebion mudol. O gofio'r dystiolaeth sy'n pwyntio at ddylanwad ffactorau heblaw treth ar ble mae unigolyn yn dewis byw, megis prisiau tai, costau byw, cyfleoedd cyflogaeth, ansawdd gwasanaethau cyhoeddus ac ansawdd bywyd yn gyffredinol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymchwil i ba rôl y mae'r ffactorau hyn yn ei chwarae yn ymateb y trethdalwr i gyfraddau treth amrywiol ar draws ffin Cymru-Lloegr.

**98.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y ffordd y mae CTIC yn gweithredu yn hybu gogwydd tuag at gynyddu cyfraddau treth incwm ac y gallai felly osod cyfyngiadau ar allu Llywodraeth Cymru i dorri cyfraddau.

**99.** Er ei fod yn cydnabod uchelgais Llywodraeth Cymru i symud tuag at system dreth fwy blaengar yng Nghymru, ni chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth o unrhyw fwriad i ddatblygu opsiynau polisi CTIC fel arian wrth gefn ar gyfer dirywiad economaidd posibl a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus. Mae ôl-effeithiau difrifol y pandemig COVID-19 parhaus ar gyfer iechyd a'r economi yn dangos yr angen i ystyried sut y gall CTIC helpu adferiad economaidd Cymru.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisiau newydd, ac adolygu'r polisiau presennol, ystyried a fydd ei pholisiau yn tyfu'r economi ac yn sicrhau'r refeniw treth mwyaf posibl.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu opsiynau polisi i ddenu'r grwpiau mwyaf ymatebol i Gymru, fel enillwyr incwm uchel a graddedigion ifanc, i hybu refeniw treth.

**Argymhelliad 7.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yngylch pa mor ddylanwadol yw ffactorau heblaw treth ar ymateb ymddygiadol trethdalwyr ac mae'n argymhell bod rhaid ystyried ffactorau o'r fath fel rhan o unrhyw ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n ymwneud ag effaith amrywiadau treth incwm ar draws ffin Cymru-Lloegr.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y mechanwaith y mae CTIC yn gweithredu trwyddo a sut mae'n hybu gogwydd tuag at gynyddu cyfraddau treth incwm.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau polisi ar gyfer defnyddio ei phwerau CTIC i ddelio ag amodau economaidd andwyol a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus.

## 5. Dulliau o liniaru treth incwm bersonol

**100.** Cyfeiriodd nifer o gyfranwyr at ffyrdd y gallai unigolion liniaru eu taliadau treth pe bai treth incwm yn ymwahanu ar draws ffin Cymru-Lloegr. Mae lliniaru treth yn lleihau rhwymedigaethau treth yn gyfreithlon trwy ddefnyddio'r deddfau treth, er enghraift, trwy roi i elusen.

**101.** Clywodd y Pwyllgor y byddai gan y rhai sy'n hunangflogedig yr opsiwn o ymateb i amrywiadau treth trwy gofrestru eu busnes presennol fel cwmni cyfyngedig (corffori). Nododd yr ymateb ar y cyd gan y CIOT a'r LITRG:

"With earned income being liable to sub-national variations but dividend income (and corporation tax) being liable to UK national income tax rates, a variation in income tax rates between Wales and England could lead to some self-employed individuals incorporating their business to change the basis of taxation on themselves and their earnings (i.e. so that they would pay corporation tax on the profits and dividend savings income tax on the withdrawal of profits from the business rather than Welsh income tax on the profits of a self-employed business)."<sup>80</sup>

**102.** Yn yr un modd, gallai perchnogion busnes newid ffurf yr incwm y maent yn ei gymryd er mwyn lleihau eu treth incwm bersonol. Nododd y WFA:

"Converting income between dividend income (still taxed at the UK government rates) and earned income will also be an additional behavioural response available to some taxpayers. Taxpayers with total incomes over the additional rate threshold in Wales received around £220 million of dividend income in 2014-15. Tax-motivated incorporations have been increasing in recent years, and any income tax rate change in Wales may affect the relative trends in incorporations."<sup>81</sup>

**103.** Tynnodd y CIOT a'r LITRG sylw hefyd at effeithiau ymddygiadol eraill, sy'n fwyaf tebygol o effeithio ar enillwyr canolig ac uchel:

---

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.05.Y.Sefydliad.Trethi.Siartredig.(CIOT).a'r.Grŵp.Diwygio.Treth.Incwm.Isel.(LITRG)

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.07.Dadansoddi.Cyllid.Cymru

- gwneud mwy o gyfraniadau pensiwn/rhoddion Rhodd Cymorth (mae'r ddau yn ymestyn y band cyfradd sylfaenol sy'n rhoi rhyddhad rhag cyfraddau treth uwch ac ychwanegol)
- dewis peidio â chymryd codiad cyflog/dyrchafiad/cynnydd oriau gwaith.<sup>82</sup>

**104.** Awgrymodd y CIOT a'r LITRG fod yr ymddygiadau hyn yn fwy tebygol o ddigwydd yn yr Alban gan y byddai'n ateb haws na symud tŷ. Er eu bod yn cydnabod hynny, does dim data ar hyn o bryd i benderfynu a yw hyn yn wir.<sup>83</sup>

### Incwm heblaw cynillion a difidendau

**105.** Mae CTIC yn berthnasol i incwm nad yw'n gynillion ac nad yw'n ddifidendau (NSND) yn unig. Awgrymodd David Phillips fod y math hwn o incwm yn llai ymatebol nag incwm cyfalaf oherwydd bod mwy o gyfleoedd i osgoi trethu incwm cyfalaf, yn enwedig trwy gadw incwm o fewn y busnes a manteisio ar gyfraddau treth is yn nes ymlaen (yn enwedig ar enillion cyfalaf).<sup>84</sup>

**106.** Ailadroddwyd hyn gan yr OECD:

“...one of the things that we observe in many jurisdictions in relation to the personal income tax is that where there are significant differences in tax rates of the personal income tax compared to the corporate rate of taxation, there are opportunities for restructuring of activities and many higher income earners are able to change the nature of their activities or the way they're structured in order to reduce the tax that they pay...one of the challenges that you face is that you do not have much control over the taxation of capital income, whether it be through the corporate vehicle or whether it be in the form of the taxation of dividends or other forms of capital return. So, we think that these are considerations to bear in mind.”<sup>85</sup>

**107.** Gan gyfeirio at y refeniw cymedrol a gynhyrchwyd ym modelau'r WFA o newidiadau yn y gyfradd dreth ychwanegol, rhagwelai'r yr OECD y gallai llawer o enillwyr incwm uchel yng Nghymru fod wedi bod yn corffori eu gweithgareddau eisoes:

---

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 05 Y Sefydliad Trethi Siartredig \(CIOT\) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel \(LITRG\)](#)

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 05 Y Sefydliad Trethi Siartredig \(CIOT\) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel \(LITRG\)](#)

<sup>84</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [NSIT 06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#)

<sup>85</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 150

“So, what you do or do not do in terms of your partial devolution and the ability that gives you around personal income tax rates is likely to be operating in an environment where that’s already built in.”<sup>86</sup>

**108.** O gofio bod llai o dystiolaeth o ran corffori ac incwm difidendau, anogodd David Phillips Lywodraeth Cymru i archwilio’r ymateb hwn ymhellach:

“I think we don’t have very good evidence about the extent to which the fact that you’ve got these two effects— Employment income is less responsive, but this new margin for response by incorporating, we don’t know how that plays out. So, I think, if a gap opens up between tax on non-savings non-dividends income in Wales and the dividends tax rates, doing an investigation of how that’s affecting the incorporation rates, how that’s affecting revenues, it won’t necessarily be easy, but I think that’s something to look at.”<sup>87</sup>

**109.** Darluniodd David Phillips y gwahaniaethau rhwng incwm difidend ac incwm nad yw’n ddifidend:

“...if you’re on £40,000 a year, if you are an employee, the total tax on that with national insurance is about £11,500. Actually, I think it’s £11,800. If it’s £40,000 as a small business, through dividends and other things, and corporation tax, it’s £7,500, so a £4,500 difference in tax. That’s just nonsense and that’s what’s driving these behaviours is the differences in taxes.”<sup>88</sup>

**110.** Aeth ymlaen i awgrymu y gellid ystyried datganoli incwm cynillion ac incwm difidend i Gymru:

“I think, initially, it [savings and dividend income] wasn’t devolved because we had a lot of interest on bank accounts being taxed, and that was partly difficult for the banks to sort out. That’s not the case, bank interest is more or less tax-free nowadays. Dividends income is all via self-assessment, we know where they live, it’s the same with self-employment. I think that can be done now and I think that is probably worth doing.”<sup>89</sup>

**111.** Er ei fod yn cydnabod y gallai codi’r cyfraddau treth ar gyfer gweithwyr a busnesau arwain at ostyngiad mewn gweithgarwch economaidd yng Nghymru,

---

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, paragraffau 168 a 172

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 11

<sup>88</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 29

<sup>89</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 33

awgrymodd David Phillips y byddai datganoli incwm cynillion ac incwm difidend yn rhoi gwahanol opsiynau i Lywodraeth Cymru. Cydnabu hefyd y byddai dilyn pwerau dros incwm cynillion ac incwm difidend yn agor Llywodraeth Cymru i'r rhan fwyaf cyfnewidiol mewn refeniw.<sup>90</sup>

**112.** Wrth ymateb i'r awgrym y gallai llawer o enillwyr incwm uchel yng Nghymru fod wedi corffori eu gweithgareddau eisoes i lliniaru treth incwm bersonol, dywedodd swyddog y Gweinidog:

“... if that has happened, in some ways—it's a bit callous to say this—we don't always care, because it's in our baseline, so, if that has already happened, then that's fine; it won't affect us going forward so much. Now, it might if tax rates vary, and, as we described, HMRC would be interested in this as well, but maybe it would be dampened because maybe most of that behaviour's already happened, because there already is the differential in the tax rates.”<sup>91</sup>

**113.** Cytunodd y Gweinidog i roi manylion i'r Pwyllgor am drethdalwyr cyfradd ychwanegol Cymru a gyflogir yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, er mwyn canfod y lle posibl ar gyfer lliniaru treth incwm trwy weithgareddau ailstrwythuro:

- Yn y sector cyhoeddus y cyflogid 27,300 (23 y cant) o'r amcangyfrif o 116,000 o drethdalwyr incwm cyfradd uwch neu ychwanegol a fyddai wedi talu CTIC yn 2016-17;
- Yn y sector cyhoeddus y cyflogid 700 (19 y cant) o'r 3,800 o drethdalwyr cyfradd ychwanegol a oedd yn dod o dan CTIC yn 2016-17;
- Byddai £57 miliwn (23 y cant) o'r £244 miliwn y byddai elfen y gyfradd uwch o'r CTIC wedi'i godi yn 2016-17 wedi dod oddi wrth weithwyr y sector cyhoeddus;
- Byddai £3 miliwn (7 y cant) o'r £42 miliwn y byddai elfen y gyfradd ychwanegol o'r CTIC wedi'i godi yn 2016-17 wedi dod oddi wrth weithwyr y sector cyhoeddus.<sup>92</sup>

**114.** Pan ofynnwyd iddi a fyddai Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod incwm cynillion ac incwm difidend yn cael eu datganoli i Gymru, atebodd y Gweinidog:

---

<sup>90</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2018, paragraffau 102 a 105

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 213

<sup>92</sup> Nodyn gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Enillwyr ardroethi uwch ac ychwanegol yng Nghymru a gyflogir yn y sector cyhoeddus

"...in terms of Welsh rates of income tax, as you know, they are very new, so we haven't looked beyond the income tax that we have. So, we haven't looked, for example, towards dividends and savings and seeking to have extra powers to devolve, because I don't think that we're in that space at the moment. And if devolved rates were to increase in Wales for dividends and savings, then it could increase the difference between the dividend and non-dividend income and then creating a further incentive for self-incorporating. So, there are all kinds of things to think about. But this isn't an area that we've explored very deeply, because we don't have the levers at the moment, and they're not levers that we would be seeking, certainly in the near future, just because income tax devolution is just, at the moment, bedding in."<sup>93</sup>

## Barn y Pwyllgor

**115.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwahaniaethau sylweddol rhwng trethiant incwm difidend a threthiant incwm nad yw'n ddifidend, a ddangosir yn yr enghraifft a ddarparwyd gan David Phillips, sy'n dangos y gall unigolyn sy'n ennill £40,000 liniaru ei rwymedigaeth treth o £4,500 os yw'n corffori ei fusnes. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymateb trethdalwyr i liniaru treth incwm bersonol ymhellach, yn enwedig o gofio bod cyfran sylweddol o drethdalwyr uwch ac ychwanegol yn cael eu cyflogi yn y sector preifat yng Nghymru ac felly'n gallu corffori eu gweithgareddau.

**116.** Er ein bod yn cydnabod bod ffocws Llywodraeth Cymru ar y pwerau dros Gyfraddau Treth Incwm datganoledig Cymru, roedd mater lliniaru treth trwy gorffori ac incwm difidend yn amlwg iawn yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae'r Pwyllgor yn credu bod datganoli posibl ar incwm cynillion ac incwm difidend yn haeddu rhagor o ystyriaeth, er mwyn rhoi dulliau i Lywodraeth Cymru gau'r bwlc rhwng incwm difidend ac incwm nad yw'n ddifidend yng Nghymru.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effaith lliniaru treth incwm bersonol trwy gorffori a newid ffurfiau incwm.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i geisio datganoli incwm cynillion ac incwm difidend i Gymru ac asesu buddion a risgiau sicrhau'r pŵer hwn.

---

<sup>93</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 294

## 6. Sgil-effeithiau

**117.** Trafododd David Phillips bwysigrwydd ystyried effeithiau eraill penderfyniadau polisi treth, nid y goblygiadau refeniw yn unig. Canolbwyntiodd ei dystiolaeth hefyd ar y sgil-effeithiau posibl o ganlyniad i benderfyniadau, er enghraifft:

“An increase in the additional rate of tax might yield revenue due to the fact the Welsh Govt [Government] bears only a portion of the migration and avoidance effect on the size of the Welsh tax base. But the Welsh Govt may still decide it does not want to do this if it is concerned with the welfare of additional tax rate payers appropriately, or it thinks there could be spill-overs on the wider Welsh population (e.g. lower wages or fewer employment opportunities) if there is a reduction in the number of additional rate taxpayers in Wales.”<sup>94</sup>

**118.** Awgrymodd y gallai Llywodraeth Cymru wneud “research to actually estimate these impacts on wider things, recognising that you’re not going to get an exact answer” a hynny er mwyn lliniaru’r risg o sgil-effeithiau.<sup>95</sup>

**119.** Cyfeiriodd y cyflwyniad ar y cyd gan y CIOT a’r LITRG hefyd at sgil-effeithiau posibl newidiadau yn y cyfraddau treth:

“...when the Scottish starter rate of 19% was introduced in April 2018, this was stated to mean that all those Scottish taxpayers with incomes up to £24,000 would pay £20 less tax over the course of the tax year than taxpayers living in the rest of the UK on the same level of income. However, Scottish taxpayers who were also in receipt of a means-tested benefit such as Universal Credit that depends on net income after tax, found that their benefit was reduced, cancelling out all or part of the tax reduction.”<sup>96</sup>

**120.** Mae'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn manylu ar fecanweithiau ar gyfer trin tri chategori o sgil-effeithiau:

---

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.06: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 125

<sup>96</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: NSIT.05 Y Sefydliad Trethi Siartredig (CIOT) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel (LITRG)

- Effeithiau uniongyrchol - Rhoddir cyfrif am y rhain i gyd, naill ai'n fecanyddol trwy'r addasiad yn y grant bloc neu ar wahân ar ôl eu nodi.
- Effeithiau ymddygiadol - Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir cyfrif am y rhain, pan fo'r effeithiau'n berthnasol ac yn amlwg, a bod y ddwy lywodraeth yn cytuno ei bod yn briodol gwneud hynny.
- Effeithiau'r ail gylch - Ni chyfrifir am yr effeithiau hyn.<sup>97</sup>

**121.** O ran y sgil-effaith uniongyrchol y byddai cynyddu cyfradd sylfaenol treth incwm yng Nghymru yn ei chael ar gymhwysedd ar gyfer Credyd Cynhwysol, ac o ganlyniad ar wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, dywedodd y WFA:

"...a 1p rise in income tax rates on the basic rate, will probably have quite a small effect. I don't think the Treasury will regard that a material sum of money and worth the effort of starting a dispute resolution with the Welsh Government. So, it's probably too small an amount. They're probably too small amounts to actually trigger this mechanism in the fiscal framework agreement."<sup>98</sup>

**122.** Yn yr un modd, ni allai'r WFA rag-weld y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd ar ôl iawndal am sgil-effeithiau ar ymddygiad yn sgil newid cyfraddau:

"I can't imagine that ever being the case—the two Governments coming to an agreement with each other that a policy rate change by the Welsh Government has caused a demonstrable or material effect...the effect of a 5p cut in the additional rate taxpayers—say that encouraged people to move additional rate taxpayers to move to Wales. Because of the nature of the tax system that we have, they'd still be contributing to the UK Government. They'd still be contributing 35p in the £1 of their additional rate income to the UK Government. So, I think it's very unlikely that you'd see a demonstrable and material effect, and then it comes to the question of how you actually measure that accurately, given the absence of a counter-factual scenario."<sup>99</sup>

---

<sup>97</sup> Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cylldol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 220

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 216

**123.** Yn absenoldeb diffiniad o effeithiau “perthnasol ac amlwg” yn y fframwaith cyllid, nododd y WFA: “this would all have to be negotiated between the two Governments, and, if there’s no resolution, the dispute falls”.<sup>100</sup>

**124.** Roedd David Phillips o'r farn y byddai awydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd ar ôl iawndal yn dibynnu ar y rhai a fyddai mewn grym ar y pryd:

“...when George Osborne was asked about this a few years ago when it first was raised in Scotland, his view on this was ‘Well, this is what it’s about; it’s about giving flexibility on taxes, and if Scotland wants to cut it and draw more business in, that’s just what this is about; we wouldn’t be pursuing this.’ I don’t know what...Rishi Sunak thinks. I think that will play a role as well—how they interpret these rules.”<sup>101</sup>

**125.** O ran trosglwyddiadau rhwng y Llywodraethau ar gyfer sgil-effeithiau, cytunodd swyddog y Gweinidog y byddai'n anodd amcangyfrif a chytuno ar gyfrif am effeithiau ymddygiadol, ond derbyniodd y byddai'r effeithiau uniongyrchol ar Gredyd Cynhwysol yn haws i'w hadnabod.<sup>102</sup>

## Barn y Pwyllgor

**126.** Er ei fod yn derbyn y bydd cyfrif am sgil-effeithiau ar ymddygiad a chytuno ar unrhyw drosglwyddiadau rhwng Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn her, mae'r Pwyllgor o'r farn bod nodi ac amcangyfrif sgil-effeithiau posibl, cadarnhaol a negyddol, yn sylfaenol ar gyfer dylunio polisiau treth effeithiol.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ymchwil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried sgil-effeithiau posibl y polisiau ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru ar bobl ddifreintiedig, megis enillwyr incwm isel ac unigolion sy'n talu treth incwm wrth dderbyn Credyd Cynhwysol.

---

<sup>100</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 217

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2020, paragraff 94

<sup>102</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2020, paragraff 300

## Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
<b>27 Chwefror 2020</b>	<b>David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt</b> Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
<b>27 Chwefror 2020</b>	<b>Ed Poole, Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol</b> Prifysgol Caerdydd <b>Guto Ifan, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru</b> Prifysgol Caerdydd <b>David Bradbury, Pennaeth yr Is-adran Polisi Trethi ac Ystadegau</b> OECD <b>Bert Brys, Pennaeth yr Uned Polisi Trethi Cwledydd a'r Uned Trethi Personol ac Eiddo</b> OECD <b>Sean Dougherty, Uwch-gynghorydd</b> OECD
<b>4 Mawrth 2020</b>	<b>Yr Athro James Foreman-Peck, Athro Economeg</b> Prifysgol Caerdydd
<b>12 Mawrth 2020</b>	<b>Yr Athro Kent Matthews, Athro Bancio a Chyllid Syr Julian Hodge</b> Ysgol Fusnes Caerdydd <b>Y Dr Long Zhou, Myfyriwr Ymchwil</b> Ysgol Fusnes Caerdydd
<b>12 Mawrth 2020</b>	<b>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</b> <b>Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Treth ac Ymgysylltu</b> Llywodraeth Cymru <b>Tom Nicholls, Cyngahorydd Economaidd</b> Llywodraeth Cymru

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld holl ymatebion yr ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
NSIT 01	Ysgol Fusnes Caerdydd
NSIT 02	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM)
NSIT 03	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban (ICAS)
NSIT 04	Llywodraeth Cymru
NSIT 05	Y Sefydliad Trethi Siartredig (CIOT) a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel (LITRG)
NSIT 06	Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS)
NSIT 07	Dadansoddi Cyllid Cymru

### Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Tystiolaeth ysgrifenedig: James Foreman-Peck a Peng Zhou, Prifysgol Caerdydd	Chwefror 2020
Nodyn gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Enillwyr cyfradd uwch yng Nghymru a gyflogir yn y sector cyhoeddus	Mawrth 2020